# PHILLIPS, THOMAS (1806-1870), gweinidog gyda'r Methodistiaid Calfinaidd ac ysgrifennydd Cymdeithas y Beiblau yng Nghymru

**Enw:** Thomas Phillips
**Dyddiad geni:** 1806
**Dyddiad marw:** 1870
**Plentyn:** Thomas Lloyd Phillips
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** gweinidog gyda'r Methodistiaid Calfinaidd ac ysgrifennydd Cymdeithas y Beiblau yng Nghymru
**Maes gweithgaredd:** Crefydd
**Awdur:** Robert Thomas Jenkins

Ganwyd 15 Mawrth 1806 yn Llanymddyfri. Effeithiwyd arno gan ddiwygiad 1819, a dechreuodd bregethu yn 1821, gan fwriadu mynd i'r genhadaeth dramor, ond yn 1825, ar fin mynd i Goleg Cheshunt i'w baratoi, gofynnwyd iddo ymgymryd â chenhadaeth dros y Methodistiaid Calfinaidd yn y Gelli (Hay), a bu yno am 10 mlynedd yn cenhadu ac yn cadw ysgol. Ddechrau 1836, penodwyd ef yn ysgrifennydd dros Gymru i Gymdeithas y Beiblau, a symudodd i dref Henffordd. Bu'n hynod lwyddiannus fel ysgrifennydd, ac ar adeg ei farw ef oedd swyddog hynaf y gymdeithas; arno ef, yn 1853, y rhoddwyd gofal dathliad ei jiwbili - ar yr achlysur hwnnw y cyhoeddodd *Llyfr y Jubili*, 1854. Cyhoeddodd hefyd gatecism ar Babyddiaeth, a aeth drwy sawl argraffiad, a *The Welsh Revival*, 1860. Yr oedd yn drefnydd medrus; cymerth ran flaenllaw yng nghychwyniad cymanfa gyffredinol y Methodistiaid Calfinaidd, ac ef oedd ei hail lywydd (1865). Bu farw yn Henffordd, 28 Hydref 1870. Y mae cofiant Saesneg iddo, a gyfieithwyd yn 1871, ac ysgrif lawn yn *Y Gwyddoniadur*, y seiliwyd y nodyn hwn arni; gweler hefyd *Cardiff Catalogue*.

Mab hynaf iddo oedd THOMAS LLOYD PHILLIPS (1832 - 1900), a brentisiwyd i Thomas Gee ac a gyhoeddodd, 1856, *Llawiadur i'r Iaith Seisonig*; cafodd urddau yn Eglwys Loegr yn 1859, a graddiodd o Goleg Iesu, Rhydychen, yn 1866; cadwai ysgol yn Beckenham (Foster, *Alumni Oxonienses*; *Asaph*).

## Awdur

**Yr Athro Emeritus Robert Thomas Jenkins**, (1881 - 1969)

## Dolenni Ychwanegol

VIAF: 16774626

Wikidata: Q20734516

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu